Canolfan Gwlyptir
**Llanelli**
Wetland Centre

## Polisi Iaith Gymraeg WWT

Mae Canolfan Gwlyptir Llanelli WWT yn ystyried y Gymraeg a'r Saesneg yr un mor bwysig.

Credwn fod gan bawb sy’n cysylltu â’r sefydliad yr hawl i wneud hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg, pa un bynnag yw eu dewis iaith.

Mae'r polisi hwn yn gweithredu ar y cyd â'r polisïau a gweithdrefnau WWT canlynol:

- Cyfleoedd Cyfartal
- Polisi Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn
- Polisi a Gweithdrefn Disgyblu
- Polisi Cwynion a Datrys Problemau

## Hunaniaeth Leol

Mae WWT Llanelli wedi ymrwymo i gynnal a datblygu ei delwedd gyhoeddus ddwyieithog a'i hunaniaeth gorfforaethol.

Mae hyn yn cynnwys ei gyfeiriad, logo, hunaniaeth weledol, a gwybodaeth safonol arall a ddefnyddir ar ddeunydd ysgrifennu, e-byst, gwefannau, deunyddiau cyhoeddusrwydd, dehongliad ar y safle, ac ati.

## Gohebiaeth Ysgrifenedig

Mae WWT yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg neu Saesneg, a bydd ein hymateb yn cael ei ysgrifennu yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol.

Lle bo’r ohebiaeth yn ddwyieithog bydd yr ateb yn cael ei wneud yn newis iaith yr aelod o staff.

Gall gohebiaeth sy'n mynd allan i unigolion neu grwpiau penodol fod yn ddwyieithog neu yn yr iaith y mae WWT Llanelli yn ei hystyried yn briodol i'r derbynnydd.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

## Gwefan

Ni allwn ddarparu gwefan ddwyieithog eto.

Am y tro, mae'r rhan fwyaf o borwyr gwe yn cynnig nodwedd cyfieithu awtomatig. Dewiswch eich dewis iaith yng ngosodiadau eich porwr i'w actifadu.

## Cyfathrebu Geiriol

Bydd ymwelwyr yn cael eu cyfarch yn gyntaf yn newis iaith yr aelod tîm sy'n siarad â nhw.

Bydd galwyr yn cael eu cyfarch yn gyntaf yn newis iaith yr aelod tîm sy'n ateb y ffôn.

Canolfan Gwlyptir
Llanelli
WWT Wetland Centre

Croesewir ymholiadau yn Gymraeg neu Saesneg, ac ymdrinnir ag unrhyw alwadau a dderbynnir yn Gymraeg yn effeithiol yn Gymraeg.

Cefnogir aelodau tîm WWT Llanelli i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Bydd WWT yn annog ac yn cefnogi cydweithwyr sy'n dymuno gwella eu sgiliau dwy iaith.

**Cyfathrebu â'r Wasg a'r Cyfryngau**

Bydd datganiadau i'r wasg WWT Llanelli yn cael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith lle bo modd.

Rydym yn croesawu ymholiadau gan y cyfryngau yn Gymraeg neu Saesneg a byddwn yn ymdrechu i ddarparu llefarydd dwyieithog os bydd o gymorth.

**Deunydd Cyhoeddusrwydd a Hyrwyddo**

Lle bynnag y bo modd, bydd digwyddiadau a drefnir gan WWT Llanelli yn cael eu hysbysebu a'u hyrwyddo'n ddwyieithog.

Pan fydd trydydd parti yn gyfrifol am drefnu digwyddiad yn y ganolfan, e.e. cyfarfod busnes neu logi ystafell, y trefnydd sy'n gyfrifol am gynhyrchu unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo yn eu dewis iaith.

Er y bydd WWT Llanelli yn ymdrechu i ddarparu'r holl ddeunyddiau printiedig yn ddwyieithog, mae'n rhaid i ni ystyried effaith amgylcheddol yr hyn a gynhyrchwn ac efallai y bydd yn rhaid i ni wneud penderfyniadau ar sail cost, cynulleidfa ac adnoddau sydd ar gael.

Mae WWT yn elusen gyda gwlyptiroedd a chanolfannau ymwelwyr ar draws y DU, gyda phob canolfan yn cael ei chefnogi gan ein timau canolog yn Slimbridge.

Mae’r timau canolog yn ein cefnogi gyda deunydd dwyieithog lle bynnag y gallant, ond Canolfan Gwlyptir WWT Llanelli yw’r unig safle WWT yng Nghymru ar hyn o bryd felly mae adnoddau’n gyfyngedig.

**WWT's Welsh Language Policy**

WWT Llanelli Wetland Centre regards the Welsh and English languages with equal importance.

We believe that all who make contact with the organisation have the right to do so in Welsh or English, whichever is their preferred language.

This policy operates in conjunction with the following WWT policies and procedures:

- Equal Opportunities
- Diversity, Inclusion and Belonging Policy
- Disciplinary Policy & Procedure
- Grievance & Problem Solving Procedure

## Local Identity

WWT Llanelli is committed to upholding and developing its bilingual public image and corporate identity.

This includes its address, logo, visual identity, and other standard information used on stationery, emails, websites, publicity materials, on-site interpretation, etc.

## Written Correspondence

WWT welcomes written correspondence in Welsh or English, and our response will be written in the language of the original correspondence.

Where the correspondence is bilingual the reply will be made in the language choice of the member of staff.

Outgoing correspondence to individuals or specific groups may be bilingual or in the language WWT Llanelli believes is appropriate for the recipient.

Corresponding in Welsh will not lead to delays.

## Website

We can't yet provide a bilingual website.

For now, most web browsers offer an automatic translation feature. Choose your preferred language in your browser's settings to activate it.

## Verbal Communication

Visitors will first be greeted in the preferred language of the team member talking to them.

Callers will first be greeted in the preferred language of the team member answering the phone.

Enquiries in Welsh or English are welcome, and any calls received in Welsh are handled effectively in Welsh.

WWT Llanelli team members are supported to use Welsh at work. WWT will encourage and support colleagues who wish to improve their dual language skills.

## Press and Media Communications

WWT Llanelli press releases will be issued in both languages where possible.

We welcome media enquiries in English or Welsh and will endeavour to provide a bilingual spokesperson if helpful.

## Publicity and Promotional Material

Wherever possible, events organised by WWT Llanelli will be advertised and promoted bilingually.

When a third party is responsible for organising an event at the centre, e.g. a business meeting or room hire, the organiser is responsible for producing any promotional materials in their preferred language.

Although WWT Llanelli will endeavour to provide all printed materials bilingually, we have to consider the environmental impact of what we produce and may have to make decisions based on cost, audience and available resources.

WWT is a charity with wetlands and visitor centres across the UK, with each centre supported by our central teams at Slimbridge.

The central teams support us with bilingual material wherever they can, but WWT Llanelli Wetland Centre is currently the only WWT site in Wales so resources are limited.